Cyfres Llanbedr | Mehefin, 1931. | Cyf. 31. Rhif 6.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y. Golygydd. Y. Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

Hanes Hen Gynulleidfaoedd—
Capel y Wig.
Y Syniad o Dduw.
Neuaddfawr.
James Herbert.
Dyfyrrwch i'r Lleuad.
Marwgofion.
Nodion yr Eglwysi

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi

Argraffwyd gan J D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

YN AWR YN BAROD.

HANES

CYNULLEIDFAOEDD *UNDODAIDD*

SIR ABERTEIFI

(Gyda Darluniau)

GAN

T. OSWALD WILLIAMS, M.A.

(Gweinidog Brondeifi a Chae'ronnen ; Golygydd 'Yr Ymofynnydd').

Pris 1/-. Trwy'r Post 1/2.

Anfoner archebion (*gyda blaendal*) at—

J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

CHANNING SCHOOL

HIGHGATE, LONDON, N 6.

Public School for Girls.

For Particulars apply to THE HEAD MISTRESS.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Cyfres Llanbedr. MEHEFIN, 1931. Cyf. XXXI. Rhif 6

Hanes Hen Gynulleidfaoedd Undodaidd.

CAPEL Y WIG.

CHWAER ond odid i Eglwys y Notais ydyw'r gynulleidfa a addola yng Nghapel y Wig—y capel diaddurn a saif ar y cwmin ym mro Morgannwg gyda'i fynwent helaeth a'i fedyddfa wrth ei dalcen yn dweyd am ei ddechreu gydag enwad y Bedyddwyr. Y drwg amdani codwyd y capel yn adeg y cyffro mawr tua diwedd y ddeunawfed ganrif ac ni ddihangodd cynulleidfa'r Wig rhag y syniadau newydd hereticaidd a rwygodd enwad y Bedyddwyr o benbwy i gilydd.

Am yn agos i ugain mlynedd cafodd nifer mawr iawn o eglwysi y Bedyddwyr y dwymyn ond dihangodd y mwyafrif ohonynt heb i'r dwymyn adael dim ar ei hôl namyn gafael sicrach ond odid yn y ffydd. Nid felly cynulleidfa Capel y Wig. Rhwygodd yr eglwys ieuanc a cheir awgrym fod y blaid Arminaidd yn y mwyafrif, a chadwodd ei gafael ar Gapel y Wig. Digwyddodd yr ymraniad yn fuan wedi ordeinio Richards yn 1799.

Nid oes alw ail adrodd yr hanes oherwydd fe'i rhowd yn hanes Eglwys y Notais. Digon yma ydyw dechreu gyda'r rhaniad yn ystod gweinidogaeth David Richards a dyfod Evan Lloyd yma rywbryd cyn Haf 1806 o leiaf. Dywedir geni Lloyd ym mhlwyf Nefyn, Sir Benfro, tua 1765 ac yr oedd yn y *Militia* pan laniodd y Ffrancwyr yn Abergwaun. Bu am ysbaid yn cynorthwyo y Parch. William Williams, J.P., Aberteifi ond yr oedd yng nghwmni'r Parch. Ben Phillips, Dr. Wm. Richards ac eraill a ymneillduodd

oddiwrth y Bedyddwyr gan ymuno a'r Bedyddwyr Cyffredinol. Fe'i ordeiniwyd yn Ffynnon Henri yn 1801 ond fe newidiodd ei farn, a dywedir yn YR YMOFYNNYDD, Rhag. 1847, iddo gymryd gofal o Tŷ Coch yn nhref Aberteifi a Chapel Soan yn Sir Benfro.* Yr oedd dylanwad Dr. Richards yn drwm arno a bu Richards yn gyfaill iddo cyn ei symud i ofalu am y Wig a'r Notais rywbryd cyn 1806.

Codwyd y Capel yn y Wig yn 1792, neu yn ôl awgrym trowyd tŷ byw yn gapel yno, a bu Lloyd yn gofalu amdano o 1806 hyd ei farw yn 1847. Rywbryd cyn yr amser hwn fe'i cynorthwyid gan ei fab y Parch. Titus Lloyd oherwydd ceir yn y Lewin's Mead MS. gofnodiad dan

"1835 (Dec.). Titus Lloyd, Wick and Newton Nottage."

Digon tebig ei fod yn gyd-weinidog a'i dad o'r adeg hon o leiaf. Ar Faen Coffa uwchben y pulpud ceir yr ysgrif hon,—

"The Rev. Titus Lloyd, who for upwards of fifty years ministered to the congregation worshipping in this chapel. Died Oct. 23, 1878, aged 84 years. This tablet is erected to the memory of the faithfulness with which he discharged the duties of a Christian Minister."

Ni cheir nemor o oleuni ar hanes y gynulleidfa yn y Cofnodion. Yn adroddiad Wright ceir,—

"Wick. In this village there is an Unit. Bapt. Congregation :" a cheir enw Capel y Wig yn rhestr George Harris yn 1819. Bu farw Titus Lloyd yn 1878. Yn 1880 rhowd galwad i'r Parch. William Parry a bu yma hyd 1895.

Y mae'r gynulleidfa fach ar gornel ac ar ei phen ei hun. Ni ellir disgwyl y torfeydd am nad oes yma dynfa i'r ardal. Ni ellir dweyd ond fod y gannwyll yn dal ynghynn a chynulleidfa fechan y Wig drwy deg a garw yn sôn am rwyg diwedd y ddeunawfed ganrif yn enwad y Bedyddwyr ac yn dal baner Crefydd Rydd ar y Cwmin i chwifio yn y gwynt.

---

* Tybed y medr hyn fod yn wir. Yn Hanes Soan a Thŷ Coch ceir fod rhyw Evan Lloyd yn weinidog yma o Eglwys Ebenezer ac yn marw'n gynnar. Ni bu David Thomas farw ond ym Mawrth 1806 ac yr oedd Evan Lloyd y Notais yn Notais yn 1806. Y mae'n hawdd camgymryd un Evan Lloyd am y llall.

GWEINIDOGION CAPEL Y WIG.

Evan Lloyd	1806—1847
Titus Lloyd (cyd-weinidog a'i dad) ...	1835/7—1847
(Yn dechreu pregethu tua 1823. Wedi'i ordeinio yn gyd-weinidog a'i dad yn y Wig, Awst 7, 1837.—Unit. Bapt. Advoc. 1837. P. 262).	
Titus Lloyd	1847—1878
William Parry	1880—1895
W. J. Phillips	1895—1898
David Evans	1898—1900
W. J. Phillips	1901—1903
D. G. Rees	1903—1904
Supplies	?
J. P. Kane	1912—1917
J. F. Ling (Layworker)	1918—

O.

Y Syniad o Dduw.

Gan yr Hybarch A. A. DAVID, Esgob Lerpwl.

PAN glyw y Cristion cyffredin, neu pan wel mewn argraff, y gair Duw, beth yw ei ymateb naturiol iddo ?

Awgrymaf, a hyderaf nid yn anheg, ddisgrifiad o'r syniad am Dduw a fodola ym meddwl llu mawr, o leiaf, o bobl a'i cydnabyddant heddiw.

Iddynt hwy, rhyw Fod dirgel anelwig ydyw Ef, a'i brif briodoledd yw gallu anherfynol. Rhaid i'w ewyllys Ef ffynnu. Yn aml, mor bell ag y gallant weld, nid yw'n ffynnu. Ond tybiant y gwna rhyw ddydd. Yn y cyfamser, saif Ef uwch ein pen, wrtho'i Hun, yn wrthrych ofn, ac ar y cyfan yn ein anghymeradwyo. Ef a'n gwnaeth ni, ac o ganlyniad rhaid bod ganddo ddiddordeb ynom. Os ymddengys ei ddiddordeb yn anuniongyrchol, tybiwn mai'r rheswm yw iddo'n gwneud yn fodau rhydd. Gallwn ei gynnwys Ef yn ein dyfalu, gallwn geisio deall Ei fwriad ac ymdrechu ufuddhau i'w orchmynion. Neu gallwn Ei anwybyddu a'i esgeuluso. Os gwnawn hynny, tybiwn y bydd rhaid wynebu canlyniadau, hwyrach yn y bywyd hwn, hwyrach yn y nesaf.

Dywedir wrthym, a chredwn, na'n gedy i ddefnyddio'n rhyddid heb arweiniad oddieithr ofn cospedigaeth. Gwyddom a chredwn iddo ar ddyddiad arbennig yn hanes y byd ddangos diddordeb cynhesach atom. Anfonodd "Ei Fab" i amlygu'r diddordeb cynhesach hwn. Effaith y "Weithred Duw" hon oedd rywfodd i atal y "mynd ar ei waered" a ganiatai rhyddid dyn yn naturiol iddo, ac yn wir a'i tueddai i'w gymryd, ac i newid ei wrthryfel i berthynas newydd y gall deimlo o'i mewn y maddeuwyd iddo, yr ymddiriedir ynddo, ac y cymerir ef i bartneriaeth a Chreawdr ei fyd ef.

Duw a Christ.

Cofiwn hefyd ddywediad Iesu iddo Ef ddod i ddatguddio'r Tad. O hyn allan ni ddylai bod amheuaeth am gymhellion, bwriadau a chymeriad Duw, oblegid "y neb a'm gwelodd i a welodd y Tad."

Ac eto fe ymguddia o'r tu ôl i feddwl dynion yr hen syniad a wna iddynt ei ystyried yn gyntaf ddim fel "un cryf" y gorffwys ei lywodraeth ar allu o'r hwn y mae iddo stôr anherfynol. Ceisiwn gyfuno yr hen weledigaeth a'r newydd i ffurfio syniad a gynnwys y ddwy. Ond gwrthodant ymuno. Ceir llawer a garant Grist mewn gwirionedd ac yn angherddol, ac sy'n ymwybodol o'i bresenoldeb Ef gyda hwynt, na fedrant weld ei Dad Ef a'n Tad ninnau fel y gwelai Crist Ef, ond gwelant Ef trwy rhyw ddarlun cymysg a ffurfir gyntaf ar ddywediadau am Iehofah, ac a liwir gan hanesion amdano yn yr Hen Destament. Ceisiant nawseiddio'r darlun hwn a'r ysbryd a ddangosir yn Iesu, ond yr effaith yw cymysgfa o nodweddion sy'n gwrthod toddi i'w gilydd. Y canlyniad yw y methant weld "un Duw" hyd yn oed, heb sôn am ei garu. Ac y mae bodolaeth yn eu meddwl o ddau syniad anghymodlawn yn fwy peryglus pan roddant i fynu'r ymdrech i'w dadrys. Canys, yn anymwybodol, ymsuddant trwy hynny i ryw fath o eilunaddoliaeth, sef yw hyn, bodloni ar syniad llai perffaith o Dduw nag a ddatguddiodd yng Nghrist o'r hyn yw ynddo'i Hun.

Y Beibl.

Nid yw achos y cymysgu hwn yn anodd ei gael. Gorwedd yn yr ymagweddiad tuag at y Beibl fel cyfanwaith y glynir yn dyn wrtho er gwaethaf yr arweiniad egluraf posibl o eiddo'r Ysbryd. Bodola llu mawr o bobl a ystyriant y Llyfr, oddiar eu parch difeddwl iddo, fel pe wedi ei ysgrifennu'n ddiweddar gyda'r amcan o roi i'r oes hon syniad am Dduw, "*ready made*" a therfynnol ei ddeffiniad. Maent wedi cau eu meddwl i'r goleuni newydd sy'n torri allan yn gyson i oes ar ôl oes o air Duw, a gwrthwynebant gyda

math o ddigofaint ddefnyddio'r ymdrech feddyliol honno yr haerodd pob proffwyd o Grist hyd at y cyntaf oedd yn amod hanfodol er medru derbyn ei genadwri. "Fy mhobl ni ystyria." "Oni chlywsoch ?" "Onid ydych yn deall ?" "Edifarhewch"—sef yw hynny, newidiwch eich ffordd o feddwl am Dduw, ac am y byd ac am danoch eich hun ; ond yn neilltuol am Dduw. "Yr hwn y mae ganddo glustiau i wrando, gwrandawed."

Nid yn unig i ddynion yr hen amseroedd y daeth yr alwad i hyn. Ni ellir chwaith ei hateb unwaith ac am byth. Dylai seinio yn ein clustiau ni mor gyson ag a wnaeth iddynt hwy, a bydd ar ein plant gymaint angen rhoi sylw iddi a ninnau. Ac wrth roi sylw iddi dylem fod yn barod i ymdrechu mewn meddwl, i ddefnyddio hyd yr eithaf alluoedd ein meddwl a'n dychymyg mewn myfyrdod ar y defnyddiau byth-gynyddol a ddyry Duw am dano'i Hun i ddynolryw. A'r cam cyntaf yn y gwaith hwnnw ddylai fod efrydu o'r newydd y cofnodion yn yr Ysgrythur am y camrau olynol y datguddiwyd gwybodaeth o Dduw i ddynion, fel yr oeddynt yn abl i'w dderbyn.

"Myfi a Ddyrchefir."

Cynorthwyir ni'n fawr yn yr efrydiaeth hon gan y ffaith nad oedd disgyblu dyn mewn gwybodaeth o hyn mwy nag o bethau eraill yn ddidor. Tyf ei gynnydd trwy gyfres o gamrau neu argyfyngau, a phob un o honynt yn arddangos symudiad clir ymlaen yn ei syniad yn gyntaf o eangder cylch gweithrediadau Duw, ac yna o'i gymeriad Ef. Fel yr ymatebau dynion i alwad patriarch, neu broffwyd neu offeiriad i "ddyrchafu" Duw, i'w "fawrygu," i'w "ogoneddu," ni ellid disgwyl iddynt gamu o'r tu allan i gylch eu cyrhaeddiadau a'u cysylltiadau. Perthynai Ef ar y cyntaf i'r teulu, yna i'r cwmwd, i'r llwyth, i'r genedl, oblegid ei eiddo Ef oedd y rhain. Yna yn raddol rhoddodd eu cyfathrach a llwythau ac a chenedloedd cymdogaethol lwyfan newydd ac eangach iddynt i edrych oddiarno ar weithgarwch Duw yn y byd, a'u paratoi i alwad y proffwydi arnynt i roi o'r neilltu eu hen syniad am Dduw wedi ei gyfyngu i un dosbarth o bobl o'i ddewisiad, ac yn cystadlu a duwiau llwythau cymdogol, ac i godi i weledigaeth o Dduw yr holl ddaear, a defnyddio'r gorau y medrai dyn ei gyflwyno iddo, pa un bynnag ai'n ymwybodol neu'n anymwybodol y cyflwynent eu gorau, i sylweddoli pa mor araf bynnag ei fwriad Ef tuag atynt oll. Daw Duw yn ben ar y byd mawr fel yr adwaenent hwy y byd, a thuhwnt iddo. "Gosodaist dy Hunan uwch y nefoedd, a'th ogoniant ar yr holl ddaear" ; yn ben hefyd uwchlaw cyrraedd pellaf yr hyn a alwent yn "feddyliau eu calon," sef yw hynny, eu dychymyg, fel y darluniai iddynt berffeithrwydd popeth oedd

yn dda, prydferth a gwir. "Dy wirionedd, O Arglwydd sy'n cyrraedd hyd y nefoedd, a'th ffyddlondeb hyd y cymylau." Adweithiai'r weledigaeth hon ar y dynion a'i cawsant, ac ar y genedl a'i derbyniodd. Ni allsai'r genedl etholedig byth oroesi trychineb y Gaethglud, na dysgu ei genadwri, pe glynasent wrth y syniad am hanfod a chymeriad Duw oedd yn ddigon da i'w tadau yn yr hen fyd, ond a oedd yn annigonol iddynt hwy yn eu byd newydd. Fel yr eangwyd eu syniad o Dduw felly hefyd yr eangodd eu hysbryd hwythau. Trwy eu darganfyddiad o Dduw mwy gododig rhyddhawyd hwythau i fawredd dynol mwy gogoneddus.

Eilun Addoli.

Ond ceid rhai y pryd hwnnw, a byth er hynny, na fedrent gymryd y cam hwn. Syrthient yn ôl i weledigaeth, hawddach i'w hamgyffred, o dduw rhwydd mynd ato, haws ei drin, yn cadw heb symud, bach. Hanfod eilunaddoliaeth yw nid addoli delwau o waith llaw ond yn hytrach plygu i syniad is o Dduw na'r uchaf posibl, a chulach na'r eangaf posibl i'r dychymyg a'r deall. Ac nid oes ond un dihangfa rhagddo. Pan geisiodd Esaia ddarbwyllo'r bobl a chwilient am weithwyr medrus i osod i fynu dduwiau bach "na symudir mohonynt" iddynt, apeliodd yn gyntaf at eu deall. "Oni wyddoch ?" "Oni chlywsoch ?" Ac yna at eu dychymyg—"Dyrchefwch eich llygaid i fynu, a gwelwch pwy a greodd y rhain." Yn y weithred yn unig o amgyffred holl eangder mawredd Duw mewn gofod ac amser fe sudda'r delwau bach i ddiddim a ffolineb. Ar ôl y Gaethglud ni chlywir mwy am danynt yn hanes crefyddol yr Iddewon. Ond parhaodd yr ysbryd tynnu'n ôl a'u creodd hyd heddiw, gan ddarganfod bodlonrwydd iddo'i hun mewn ffurfiau y sylwn arnynt yn y man.

Mawrygu Duw yng Nghrist.

Dygodd y cam mawr nesaf yn natguddiad cynyddol o Dduw yr holl ddefnyddiau anghenrheidiol i amgyffred ei hanfod a'i gymeriad Ef i berffeithrwydd, mor bell ag y gellir gwneud hynny yn y bywyd hwn. Pan ddatguddiodd Iesu y Tad, cododd ein golygon at ddau beth mawr o leiaf yn Nuw.

Yn gyntaf eangodd gylch ei weithgarwch Ef. Nid oedd angen mwy pwysleisio ei hollalluowgrwydd yn nhermau maint a gradd ei allu. Mewn damcaniaeth adnabyddent Ef yn barod fel Duw holl bresennol ac unbenaethol. Ond i bob diben ymarferol cyfyngodd y Rabiniaid ei ymwneud a'i gysylltiadau a dyn. Rhwymasant Ef wrth leoedd, a rheolau a defodau. Torrodd Iesu trwy bob ymgais o'r natur hon i'w gyfyngu. Gyda beiddgarwch a

ymddangosai i uniongrededd ei ddydd yn anystyriol ac hyd yn oed yn gableddus, gwelodd a dangosodd Dduw ym myd cyffredin natur a dynion, mewn adar a blodau a phlant, ymhob bywyd da fel y gwelai Ef fywyd.

Yna yn yr ail le datguddiodd fawredd dwyfol yn yr hwn y cyfeirid, atelid, llywodraethid gallu, oedd ei hunan yn dragwyddol ac anorchfygol, gan Gariad.

Trwy'r hyn a ddywedodd, yn ogystal a thrwy'r hyn a wnaeth, dysgodd ddynion i weld fod Cariad yn rhywbeth mwy na'r hyn a ddeallent wrth allu. Nid rhyfedd eu bod ar y cyntaf yn tynnu 'nol, gyda gwrthwynebiad mor sarug nes dwyn ei fywyd oddiarno. Yr oedd y weledigaeth yn rhy uchel, yn rhy eang iddynt. A bu raid i Sant Paul ymladd yn galed i'w hachub, a chyda hi y rhyddid ysbrydol a roddai, y rhyddid a'r hwn y rhyddhaodd Crist ni. Ond enillodd y dydd am fod ei weledigaeth yntau o Dduw yn eangach nag eiddo'r rhai a'i gwrthwynebent. Ond syrthiodd dynion eilwaith yn ôl i syniadau cul, bach, diogel a chyfforddus am Dduw. Rhaid adnewyddu'r ymdrech i fawrygu Duw drosodd a throsodd o hyd.

(I'w barhau).

Y Neuaddfawr.

UN o gyfnewidiadau amlycaf yr hanner canrif diweddaf yw'r cyfnewidiadau ynglyn â pherchenogaeth tir. Dechreuodd y trosiad o un math ar berchenogaeth i'r math arall heb fod yn hir ar ôl etholiad bythgofiadwy 1868, pan drowyd o'u cartrefi y fath nifer o ffermwyr trwy Gymru benbaladr oblegid beiddio o honynt gofnodi'u pleidlais yn groes i ewyllys eu meistradoedd? Nid oeddwn i yn ddigon hen i gofio'r etholiad nac i deimlo un diddordeb ynddi; ac os darfu imi gymaint a chlywed bod etholiad y mae'r peth wedi diflannu'n llwyr o'm cof. Yn debygol, ni ddeuai nac etholiad na dim arall o gyffelyb natur tu fewn i ffiniau fy nghylchfyd plentynnaidd; eithr byw iawn yw fy nghôf o'r drybestod a ddilynodd yr etholiad a ennwyd, yn enwedig wedi'r troad allan yn y Llwyn. Digwyddiad oedd hwn na allai lai na gadael argraff ddofn ar feddwl a fu yn dystion o hono; a chreodd ynof fi, fel yn achos llu aneirif eraill, y fath atgasrwydd at bobmath ar ormesiaeth a lynodd wrthyf hyd y dydd hwn.

Tua'r adeg a ennwyd—1868—perchenogid y tir gan nifer fechan o'r boblogaeth—y tir feddianwyr—yn ystadoedd mwy neu lai eu maint—rhai yn eithriadol fawr. Hawdd iawn a fyddai imi enwi un ar ôl y llall o honynt tu fewn i gylch cyfyng fy myd i—canol Ceredigion ; eithr ni ŵyr y genhedlaeth bresennol ddim am danynt. Ynghwrs yr hanner can mlynedd hyn, diflanasant o un i un, fel, erbyn hyn, nad oes yn aros ond ychydig o honynt ; ac y mae hyd yn oed y rhai a erys wedi'u cwtogi'n fawr iawn. Ai gwelliant ynteu i'r gwrthwyneb yw'r cyfnewidiad, barned y darllenydd. I'm tyb i, yn brin y gellir ei ystyried yn welliant. Pobl dawel, garedig, a hoffai roddi i'w deiliaid bob cefnogaeth a chymorth i'w galluogi i ddwyn deupen y llinyn ynghyd a rhagor oedd yr hen dir-feddianwyr—ar y cyfan ; yr oedd eithriadau. Yn sicr, nid gwelliant—i gyd, o leiaf—mo'r cyfnewidiad ; a phe digwyddai imi ymgymryd â ffermio, llawer gwell a fyddai gennyf bod yn ddeiliad i'r hen fath ar dir-feddianwyr nag i'r newydd. Gwir yw y ceid aml ddafad ddu ymhlith yr hen fath. Dyry'r Parch. Eyre Evans yn ei "Lampeter" ddarluniad byw iawn o un o'r hen fath ar ddafad ddu ; fel, o'i ddarllen, na allaf ymochel rhag teimlo o honof ryw ias o ddychryn yn rhedeg fel saeth trwy fy holl gyfansoddiad ; ac ymron bob tro yr âf i lawr dros y rhiw i gyfeiriad Llanbedr, ehedaf yn ôl ar edyn dychymyg i'r amseroedd enbydus pan drigai'r Llwydiaid yn hen balastŷ Ffynonbedr, ac y llywodraethent y gymdogaeth â gwialen o haearn. Dim ond adfeilion yr hen balastŷ sy'n weledig i ni o'r genhedlaeth bresennol. Mor fyw ydyw darluniad y bardd o Gastell-hywel o'r cwymp :

"Troir ei chain lydain aelwydau—'n erddi,
A gwyrddion weirglodau ;
A mynych yr ych o'r iau
Bawr lawr ei gwych barlyrau."

Saif hynny o adfeilion a erys fel cof-golofn i ormesiaeth yn ei hagweddau gwaethaf.

Rhoddi ychydig o hanes un o'r ystadoedd hyn a fwriadwn wneuthur pan ddechreuais ysgrifennu—ystad y Neuaddfawr ; hanes un o'r perchenogion yn fwyaf neilltuol. Ni raid imi, mi dybiaf, Mr. Golygydd, wrth un ymddiheuriad oblegid danfon o honof a ysgrifennaf i'ch misolyn ; oblegid hyd o fewn côf rhai (ychydig ydynt) o drigolion presennol cymdogaeth Llanwnnen, bu cysylltiad agos rhwng teulu'r Neuadd â'r achos Undodaidd. Yr oedd y Jonesiaid (y ddau olaf o honynt, o leiaf) a'r ddau Huws cyntaf yn fynychwyr cyson yng Nghapelygroes. O ddarllen "dyddiadur" yr olaf o'r ddau Huws—Huws Castelldu—sylwn y cyfnodai'i fynychiad o Gapelygroes ymron yn ddi-fwlch ; ac aml

iawn y gwelwn sylw am y bregeth llym weithiau mor llym, yn un achos, fel yr amheuaf a ganiatai'r Gol. iddo ymddangos pes rhoddwn yma. Nid peth arwynebol, ychwaith, oedd eu ddiddordeb yn yr achos Undodaidd; yr oeddynt yn ddarllenwyr o lenyddiaeth Undodaidd ac yn gredinwyr yn yr egwyddorion Undodaidd. Nid ar antur y dywedaf hyn. Yn ddiweddar, cefais gyfle i fynd trwy'r lyfrgell; a pherwyd imi gryn syndod o sylwi ar luosogrwydd llyfrau awduron Undodaidd. Gweithiau Priestley, Belsham, Channing, Parker: yr oeddynt yno i gyd, ynghyd a llu eraill a ellid eu henwi.

Hanner can mlynedd yn ôl, ystad fawr iawn oedd ystad y Neuadd, â'i changhennau'n daenedig dros ran eang o ganol Ceredigion — ym mhlwyfi Llanbedr, Llanwnnen, Llanwenog, Blaenpennal; Pencarreg a Llanfihangel-rhosycorn yn Sir Gaer. Rywbryd yn ystod y flwyddyn bresennol, efallai cyn y gwêl y darllenydd y llinellau hyn, bydd y rhan fwyaf os nad y cwbl o honi wedi mynd trwy ddwylo'r arwerthwr i ddwylo eraill, ac ystad y Neuadd, fel llu o ystadoedd eraill Ceredigion, wedi 'i rhifo ymhlith y pethau a fu.

Ar gyfrif enwogrwydd rhai aelodau o'r teulu, ac ar gyfrif ei gysylltiad agos â'r Undodiaid dros ran fawr o'i dymor, teimlaf na ddylid gadael iddo ddiflannu yn hollol ddisylw. Ynghwrs y blynyddoedd diweddaf, rhoddais ambell i orig hamdden i gasglu defnyddiau at ysgrifennu'r hanes; a llwyddais, er nad i'r mesur a ddymunwn, eto i fesur digonol (mi obeithiaf, o leiaf) i roddi amlinelliad (diddorol iawn i mi) o hono. Hanes ydyw, nid diddorol fel hanes yn unig, ond hanes a chryn dipyn o'r digrifol yn gydwaeedig ag ef, rhy ddigrifol, o bosibl, beth o hono, i gael drws agored i ddalennau cyhoeddiad mor urddasol a'r YMOFYNNYDD.

Achlysur gwerthu'r ystad fu marw Mrs. Huws ychydig cyn diwedd y flwyddyn ddiweddaf (1930). Nid oedd hi o achau teulu'r Neuadd. Hannai o dras y Crawshays o'r Gyfarthfa — enw a fu mewn bri mawr yng nghymdogaeth Merthyr y rhan olaf o'r 18fed ganrif a'r rhan gyntaf o'r 19eg, fel enw perchenogion un o weithfeydd haearn mwyaf y deyrnas, gogoniant yr hwn sydd wedi diflannu bellach er's blynyddoedd, a'r adfeilion eang yn aros yn dystion mud o'i fri a fu. Daeth Mrs. Huws i'r Neuadd ychydig gyda deng mlynedd ar hugain yn ôl, ar ei phriodas â'r diweddar Mr. Huws—yr olaf o'r Huwsiaid. Collodd ei phriod yn fuan, a byr fu ei bywyd priodasol. Adeg ei dyfod i'r gymdogaeth, dieithr-ddynes ydoedd i'r trigolion; a dieithriaid oeddynt hwy iddi hithau; eithr ni fu yn y gymdogaeth fawr o amser cyn ennill o honi eu serch i fesur anghyffredin o fawr; a dydd ei hangladd dim

ond gair da a glywid am dani—tystiolaeth a lwyr haeddai ar gyfrif ei gostyngeiddrwydd a'i charedigrwydd a'i hynawsedd a'i pharodrwydd i gefnogi popeth a dybiai'n haeddiannol. Daeth yr Huws diweddaf i feddiant o'r ystad ar farw'i dad, Dr. Huws, Castell-du, "y crowner" fel y'i gelwid yn gyffredin, tua'r flwyddyn 1872; ac yntau ar farw'i dad—yr Huws cyntaf—tua 1871. Bywyd llyfn, tawel, tir-feddianwyr gwledig a fu bywyd y tri, heb ddim o un diddordeb eithriadol i gofnodi am danynt; ac ni ddeuant, yn o debig, i sylw'r darllenydd drachefn. Daeth yr ystad i feddiant yr Huws cyntaf ar farw'i ewythr—yr olaf o'r Jonesiaid—yn 1847; a daeth i'w feddiant yntau ar farw'i dad rywbryd tua diwedd y 18fed ganrif. Ni lwyddais i olrhain yr achau ymhellach na hyn. Y ddau hyn—y tad a'r mab, yr olaf o'r ddau yn arbennig, a roddodd fri i'r enw Neuaddfawr. Mewn llith neu ddwy arall ei hanes ef a ga sylw.

D.E.

James Herbert.

CEFAIS flas neilltuol wrth ddarllen ysgrif y Parch. D. Evans ar James Herbert yn YR YMOFYNNYDD diwethaf. Ni wnaeth Mr. Evans awgrymu pwy oedd ef nac o ble y daeth ac efallai nad yw ef, ac amryw o ddarllenwyr yr ysgrif yn gwybod dim am dano. Tebyg y tueddir hwynt i gredu, mai brodor o Gwmcych ydoedd. Mab ydoedd i Jacob Herbert, Pantglâs, tyddyn bychan ym mhlwyf Llanarth, ym mlaen dyffryn Cletwr Fach a thua milltir o bentref Talgarreg.

Wedi ymgyfathrachu a theimlo hud y Chwilgarn a'r bryniau moelion gerllaw symudodd yn gymharol ifanc i aradal Castellnewydd Emlyn, Cwmcych, tebyg iawn. Saer maen ydoedd wrth ei alwedigaeth. Saif Pantglâs megis canolfan rhwng beirdd a llenorion Dyffryn Cletwr Fach a bane Shôn Cwilt. Temtir ni i enwi rhai o honynt: Caregian, Amnon, Rhys Etna Jones, Glan Dulas. Yn y plwyf hwn y ganed Glanarthog, Esgob Llwyd o Lan Llethi, Sion Gymro, D. Stanley Jones, a D. Silvan Evans. Gwelir hefyd o'r bryn gerllaw gartref genedigol y Prif Fardd Sarnicol. Diau fod rhai o rhain ac athrylith ei dad wedi rhoi arweiniad i'w fywyd a chyfeirio ei dueddiadau i'r iawn gyfeiriad, felly nid rhyfedd ei fod wedi cyfansoddi emynau sy'n cymeryd meddwl dyn i awyrgylch uwch na'i amgylchfyd daearol. Cydnabyddid Jacob Herbert (tad James) yn ddyn doeth, bardd a meddyg. Nid aml y ceir cyfuniad mor llawn o'r tri hyn.

Dengys y dyfyniadau canlynol ei fod yn enwog yn ei ardal.

O "Delyn Ifan" cyhoeddwyd 1895, sef gweithiau barddonol y diweddar Evan Thomas (Bardd Horeb). Benthyg llyfr. "Danfonais" (Bardd Horeb sy'n siarad) "gyda Daniel Verdrefach at J.H. Pantglas, Llanarth am gael benthyg llyfr dros ychydig sef 'Bardd y Byrddau'."—

"Jacob Herbert dirion,
Mae gennych waith prydyddion,
Gwŷr doethion bethau :
A Daniel oedd yn dywedyd
I'ch rhan yn rhwydd gyrhaedd
Eu hyfryd lyfrau.

Da iawn fydd gen i pe cawn,
Dros rai wythnose
Gael un o'ch llyfre
Sef 'Bardd y Byrdde',
Gwr llon o ddoniau llawn
Ac falle down yn gallach
Wrth weld deheuach dawn."

Y mae gan y "Bardd" bennill neu ddau yn rhagor, ond digon hyn i ddangos safle J.H. ym mhlith ei gyfeillion llenyddol.

Cawn eto "Yng Nghrwth Dyffryn Clettwr" tud. 89 ateb i ofyniad J.H. y meddyg o Bantglâs, Llanarth ar anfarwoldeb yr enaid :—

"Daeth i'm llaw dy beraidd ganiad
Am dy ofid blin a'th brofiad,
Ac ar ei diwedd holiad hynod
A yw ysbryd dyn yn darfod."

Dyma ddiweddglo ateb Amnon :—

"Fe fu Laz'rus bedwar diwrnod
'Nol yr hanes yn ei feddrod,
Ac ni dd'wedodd air wrth undyn
Am y nef nac uffern wedyn.

Os y methais roi atebiad
Llwyrfoddlonol i'th ofyniad,—
Imi eto noda'r gwallau
Ar gân rymus mewn rhesymau."

Gwelir wrth yr atebiad y fath oedd y gofyniad, a dengys fod ymdrechfa ym mynd ym mlaen rhwng ffydd ac amheuaeth ym meddwl Jacob Herbert. Ffydd yn cymell i gredu ond yn methu a rhoi praw digonol i argyhoeddi amheuaeth. Amlwg yw fod cyflwr meddyliol ei fab, yn ôl ysgrif Mr. Evans yr un fath. Y mae'r meddyliwr yn syrthio ar draws mil a mwy o anhawsterau ond y mae'r dyn esmwyth ei feddwl yn fwy parod i gymryd pethau'n ganiataol. Rhaid addef wedi meddwl a phendroni fod "Ymbwyll gorau dyn yn ddall."

Diau fod James Herbert wedi cael gweledigaeth cyn iddo gyfansoddi yr emyn balmaidd :—

"Gwelaf dros ganllawiau amser
Ffrwythlawn dir y bywyd draw," etc.

Lluosog yw'r dosbarth hynny o ddynion sy'n cyhuddo dyn o heresi os y gofyn efe am oleuni ar rywbeth mewn perthynas i'r "ffrwythlawn dir y bywyd draw," neu ameu cyfaddaster yr ymadrodd "Oll yn eu gynnau gwynion." Gwyddom y byddai'n fwy o nefoedd i lawer fod yno yn eu dillad gwaith, oblegid gwaith yw eu dedwyddwch yma a chredwn mai yr un fydd elfennau eu natur yno.

Cyhuddid Gwilym Marles un amser o wadu athrawiaeth anfarwoldeb yr enaid. Buom am gyfnod hir o dan ei weinidogaeth ac ni chawsom achos erioed i feddwl ei fod yn ameu dim o'r fath beth. Yr unig amheuaeth yn ei feddwl mewn perthynas i'r bywyd anfarwol oedd dilysrwydd y termau diwinyddol a ddefnyddid i'w bortreadu.

Dywed Elfed yng Nghyfrol Goffa y Parch. Talwyn Phillips fel hyn : "A phan aeth ef (Talwyn Phillips) i feddwl am wisgo mantell y pregethwr, aeth at yr Athro rhagorol Gwilym Marles. Undodwr fel y cofir oedd ei athro, ac ni fu gydag ef yn hir, ond credwn fod argraff hwnnw ar ei feddwl byth, i'w gadw'n feddwl effro, rhyddfrydig. Yr oedd Talwyn yng Ngholeg Yale pan fu Gwilym Marles farw ; ac yn y *Drych* (Chwefror 11, 1880) ceir ganddo bum llinell—'Fy athraw yn ei fedd.'

'Ar ol yr athro mawr ei ddawn
Y disgybl yn ei ddagrau gawn : '

Gofidiai o bell 'nas gallasai' fod yn yr angladd ; ond—

'Os gweled Cymru byth a gaf
Dod at dy fedd i wylo wnaf.' "

Yn ôl nodiad ar ddiwedd y gân yr oedd Gwilym yn "ameu bodolaeth sefyllfa ddyfodol". A'r pennill mwyaf gwerthfawr yn y gân, am ei fod yn datguddio, mor brudd-dyner, serch calon eangfrydig a gobeithlawn y disgybl, yw hwn :

"Derbyniol fyddai gair
O'th enau di yn awr,
I adrodd beth yw'th ran
Yn nhragwyddoldeb mawr :
Ti wyddost heddiw, gyfaill cu,
Mai bod anfarwol ydwyt ti."

Rhaid iddo gael y dymuniad hwn i mewn wrth orffen :

"Gobeithio cawn ni ysgwyd llaw
Ar lenyrch gwyrddion byd a ddaw."

Beth ddywed Gwilym Marles ei hun yn ei emyn ?—

"A phan ddelo amser gorffwys
Lludded daear drosodd oll,
Cynnull ni i'th lân Baradwys
Heb o honom un ar goll."

Credwn yn gadarn fod y ddau wedi "ysgwyd llaw" gyda gwresogrwydd calonnau pur.

GLAN GLOWON.

Difyrrwch i'r Lleuad.

NOSON leorgan hyfryd ydoedd, am fod lleuad Fedi yn llawn. Nid oeddwn yn teimlo fel mynd allan er gwresoced croeso'r lloer, oherwydd fy mod wedi treulio'r prynhawn yn yfed o awyr iach Pen Trichrug.

O pe baech yno gyda mi ! gweld porffor clychau'r grug yn ymdoddi i felyn blodau'r eithin : dyna fôr o liw i'r arlunydd ! Yr oeddwn wedi meddwl cymaint arno fel mai gwell oedd gennyf ei ail-fyw yn nistawrwydd fy ystafell na mynd allan i'r nôs.

Yno y bum am gryn dipyn yn meddwl a meddwl, nes o'r diwedd parodd y cysgodion hir oedd yn dyfod i mewn drwy'r ffenestr i mi ddychrynu tipyn. Yr oedd ambell i hen gysgod ar ffurf cawr mawr, a hwnnw fel pe gwgai arnaf, a'r llall fel hen neidr yn gwingo oddeutu 'nhraed.

Parodd hyn i mi newid fy meddwl ynghylch mynd allan, a gwisgais fy nghôt ac allan a mi i'r ffordd fawr. O bobl annwyl! sôn am unigedd y nôs!—dyma ddistawrwydd perffaith ag eithrio cyfarthiad ambell i gi yn y pellter. Atseiniai swn fy nghamre fel tarawiad eingion bob tro, a theimlwn fel torri allan i fwmian rhyw gân er mwyn torri ar y distawrwydd llethol hwn.

Rhown hanner fy meddiant pe bai gennyf rywun i siarad ag ef, er tynnu fy meddwl oddiwrth yr unigedd hwn.

Cerddai fy nghysgod o'm blaen bob cam o'r ffordd, a theimlwn ei fod yn fy ngwatwar, oherwydd yr oedd arno yr un un gerdded a minnau, a phob tro y gwyrwn ni, y gwyrai yntau i'r un un cyfeiriad.

Wrth fynd ymlaen, deuthum o'r diwedd i'r llyn, lle yr oedd llawer bardd wedi canu am y lloer yn ariannu'r lli a llawer i beth cyffelyb. Ond am danaf fi, hylltra erchyll welwn ni yma a phawb a phopeth yn rhyw wag syllu arnaf heb ddweud yr un gair.

Trois i fynd adref ar hyd yr un un ffordd, ond O'r Argian! ar ochr y ffordd gwelais rywbeth mwy erchyll byth. Beth ydoedd tybed? Ie, dyna'r cwestiwn a ofynnwn innau i mi fy hun. Dyn ydoedd bid siwr, yn gorwedd ar ei hyd, a'i ddwylo ymhleth yn ei gôl, a'i wyneb cyn welwed a wyneb y brawd oedd yn disgleirio uwchben. Beth oedd orau i mi wneuthur? Mynd ymlaen ato? O na, efallai mai drwg weithredwr ydoedd yn disgwyl ryw egwan fel myfi heibio.

Gwell oedd mynd nôl i ddweud wrth y plisman yn union deg, a dyna beth wneuthum.

Wrth fynd, gwelwn bosibilrwydd llofruddiaeth anfad, a beth pe bawn ni y cyntaf i weld yr erchyllwaith.

Dyma dy'r plisman, a chnocais yn wylaidd ddigon ar y drws. Dywedais fy mod wedi gweld corff marw ar y ffordd gerllaw'r llyn, corff dyn canol oed fel y tebygwn ni, ac erbyn hyn teimlwn yn sicr fod ei ddwylo wedi ei clymu o'r tu ol.

Dyma'r plisman yn rhoi ei glôg am dano, ei lyfr yn ei boced a'i lamp wrth ei chadwyn.

Ffwrdd a ni i fyny at y llyn, a minnau erbyn hyn yn fwy sicr byth fod ol gwaed ar yr wyneb a welais.

Dacw fe yn y golwg a minnau yn neshau at ochr y plisman, rhag ofn i rywbeth fy nghipio i fynny mewn cawod o lwch, a theimlwn fy lliw yn newid ar bob tarawiad amrant.

Dyma'r plisman mawr, diofn, yn gafaelyd yn y sypyn du gerfydd ei wddf, ac yn rhoddi bloedd echryslon ar yr un pryd !

Gafaelyd wnaeth mewn Llwyn Eithin.

R.E.E.

O.N.—Ni hydiaf ddweyd yr achlysur a barodd i mi ddanfon hon i mewn i'r YMOFYNNYDD y tro hwn. Dim ond chwech ohonom a ŵyr y gwir reswm, a gallwch fentro fod y parchus Olygydd yn un o'r chwech.

Oriau Hamdden.

(*Buddugol yn Eisteddfod Capel Als, Llanelli*, 1931).

TUA dechreu'r ganrif bresennol ychydig wyddai'r gweithiwr am oriau hamdden, rheol y dydd iddo ef oedd—o'r gwely i'r gwaith, ac o'r gwaith i'r gwely. Gweithiai'n galed o godiad haul i'w fachlud, a'i hur oedd pedair ceiniog y dydd a'i fwyd, bwyd digon garw hefyd. Erbyn heddiw mae'r sefyllfa wedi gwella, ond nid heb lawer o frwydro ac erlid. Mae'r huriau'n fwy sylweddol, a'r oriau yn fwy rhesymol. Yn wir, cyn y rhyfel diwethaf yr oedd pethau'n mynd yn esmwyth a rheolaidd, ond oherwydd trachwant rhyw ychydig o benaethiaid milwrol yr Almaen, taflwyd yr holl fyd i helbul, y dioddefwn oddiwrtho hyd heddiw. Ni ellir gwahanu achos ac effaith. Mae byddin y diwaith yn dyst o hyn, a chyda llaw, mae gan y gweithiwr yn y dyddiau yma gydymgeisydd peryglus yn y peiriant. Mewn cyfnod o ruthr fel y presennol, y mae'r peiriant mor gydweddol a gogwydd yr oes, oherwydd ei gyflymdra. Mae Gwyddor a dyfais wedi brasgamu i'r fath raddau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nes lleihau llafur i fesur helaeth. Gellir heddiw drawsffurfio tŷ sydd yn dalp o dywyllwch yn fôr o oleuni trwy yn unig wasgu botwm.

Mae'n amlwg mae nôd dynoliaeth ydyw datblygu, ac ymfalchia pawb yn y meddwl sydd tu ôl i bob dyfais, ond wrth weld y gweithiwr yn cael ei amddifadu o'i ddiwrnod gwaith, teimlaf nad yw fy amgyffred i yn ddigon clir i ddeall cwrs datblygiad.

Pwy wyr nad hirell o ddyddiau gwell ydyw'r trai presennol, pryd y gwelir digon o waith i bawb eto, a mwy o hamdden, a gwell huriau. Ond yn ôl y drefn bresennol o weithio, mae gan y gweithiwr amryw oriau hamdden at ei wasanaeth bob dydd, a'r cwestiwn sydd yn codi ydyw :—" Pa ddefnydd wna ef o honynt." Y ffaith yw fod pob mantais a braint ychwanegol yn dwyn eu cyfrifoldeb. Gall dyn droi awr o hamdden yn fendith iddo'i hun, neu i'r gwrthwyneb.

Dyna fachgen ieuanc yn cydio yn ei waith yng ngwaith dur Klondyke, Llanelli, yfory. Hwyrach y buasai yn well ganddo eistedd i lawr i chwarae cardiau gyda'i gyfeillion, ond gan fod y fforman yn cerdded yn ôl ac ymlaen, ac yn cadw ei lygad arno, nid oes ganddo'i ddewis. Y mae dan orfodaeth i gyflawni ei ddyledswydd. O ganlyniad, bydd y bachgen ar lwybr diogel tra erys yn y gwaith. Am bump o'r gloch yn y prynhawn dyna'i ddiwrnod gwaith drosodd, a chychwyna tua thref. Yn awr bydd ganddo ryw bum awr, mwy neu lai, o hamdden at ei wasanaeth. Ni bydd meistr na fforman ar ei ôl yn awr, ond bydd at ei ryddid i wneud yr hyn a fyn, a dyma gyfleu temtasiwn ; a arweinia hi ef i'r dafarn ? os gwna, mae'n bosibl i un awr yno i'w yrru i ddamnedigaeth bythol, oherwydd pan fyddo'r ymennydd wedi ei bylu gan alcohol nid ydyw dyn yn gyfrifol am ei ymddygiadau. Ond ar y llaw arall, os defnyddia'r bachgen ei hamdden i wneud daioni o unrhyw fath, gall fod yn fendith bythol iddo.

Y farn boblogaidd ym mysg y dô ieuanc heddiw ydyw mae chwaraeon a phleserau, sef cicio'r bêl droed, chwarae criced, dawnsio, mynychu'r darlun-dŷ, a gwaeth na'r oll, hap-chwarae yw prif sylweddau bywyd, a dyna lle rhuthrant cyn gynted ag y byddo'u diwrnod gwaith drosodd.

Methaf fi gydweld a hwy ar y pwnc. Gwell gennyf gredu mai tyfu'n feddyliol a moesol ydyw neges ein bodolaeth, a'r modd mwyaf effeithiol i wneud hynny ydyw—darllen llyfrau da, ac astudio llenyddiaeth, cerddoriaeth, barddoniaeth a chelfyddyd uwchraddol, a cheisio cymhwyso ein galluoedd tuag at gynhyrchu rhywbeth teilwng o'n breintiau.

Mae'r oen bach ar y maes yn chwarae a dawnsio, ac ni ddisgwylir dim arall oddiwrtho ef am mai anifail direswm ydyw. Mae'r aderyn bach ar y goeden hefyd yn chwarae a dawnsio, ac yn neidio o frigyn i frigyn yn ystod y seibiant rhwng gwahanol rannau ei gyngerdd soniarus. Ni ddisgwylir rhagor oddiwrtho yntau canys aderyn ydyw, ond methaf a gweld ba ddiben ydyw donio dyn â rheswm a deall, oni ddisgwylir rhywbeth amgenach oddiwrtho nag oddiwrth yr anifail a'r aderyn.

Pe bae'r genedl Gymreig yn ymdaflu'n llwyr i chwaraeon a phleserau, am eu bod, fel yr honna'u cefnogwyr, yn ddiddorol ac yn iachusol, beth fyddai'r canlyniad? Syrthiai'r Gymanfa, a'r Eisteddfod, a'r Gyngerdd a'r Bregeth i'r cysgod, a dyna ogoniant Cymru'n machlud. Pwy fedr bortreadu Cymru, Gwlad y Gân, heb y sefydliadau hyn. Darlun gwâg, truenus iawn fyddai, heb asbri nac enaid ynddo.

I gadw'r sefydliadau hyn yn fyw, mae angen am feirdd a cherddorion, a phregethwyr ym mhob oes. Faint ohonom sydd wedi meddwl, wrth glywed côr yn canu Anthem, neu blentyn yn adrodd pennill mewn cyngerdd, am ymdrech y bardd a'r cerddor a fu wrthi yn cynhyrchu'r miwsig a'r gân. Mae'n bosibl mai digon prin oedd eu hamdden, a digon anffafriol yr amgylchiadau. Os felly, mwyaf i gyd fydd eu tâl am eu hymdrechion.

(*I'w barhau*).

Llanelli. A. REES.

Priodas.

SABATH, Ebrill 12, yng Nghapel Henrietta, Abertawe, o flaen Gweinidog y lle, a'r Cofrestrydd, priodwyd Mr. John Samuel Davies, "Caeronnen," Trebanos â Miss Martha Jane Lewis, "Cartref," Maesygrug, Abertawe.

Marwgofion.

EBRILL 7fed, yn 83 mlwydd oed, wedi dihoender ac aeddfedrwydd naturiol henaint, bu farw Thomas Lloyd, Felindre uchaf, Felinfach. Fel ag y gwelir cafodd yr ymadawedig oes faith a chychwynodd hi mewn cyfnod pryd nad oedd ond 'chydig iawn mewn bywyd syml gwlad ond gwaith caled, a dysgodd hyn pan yn ieuanc iawn, oherwydd yr adeg hono dyna'r unig ffordd os am fyw. Cafodd yrfa faith, cafodd hefyd gorff cryf ac iechyd eithriadol trwyddi, a phob mantais felly i gyfarfod a gofynion, gan mwyaf, celyd cyfnod bore ei fywyd. Dyn o gymydogaeth Gorsgoch oedd Thomas Lloyd, ond daeth yn gynnar i ardal brydferth Dyffryn Aeron a threuliodd yno ar fin 60 mlynedd fel amaethwr adnabyddus, da a llwyddiannus. Gweithiodd yn galed a dyfal trwy ei oes, a thrwy ei ymdrechion ef a'i briod hoff a gofalus, dygodd i fyny deulu lluosog, a bu fyw yn ddigon hir i'w gweled i gyd wedi ymsefydlu yn eu gwahanol gylchoedd mewn bywyd. Rhoddodd iddynt i gyd gychwyniad anrhydeddus a theilwng o dad da a meddylgar. Mewn llawer ystyr yn gymeriad gwreiddiol ac ar ei ben ei hun,—o rodiad syml, naturiol a phlaen; o ysbryd difalch, duwiol a hawddgar; ac o feddwl byw,

manwl a threiddgar. Gwnaeth ei oreu yn ei gylch, a chyda bywyd yn yr ystyr gyffredin, ond nis anghofiodd bethau goreu bywyd; ac yn ei ffordd ddi-rodres ei hun cadwodd ei ddiddordeb mewn crefydd ac agweddau moesol ac ysbrydol cymeriad yn fyw ac ymarferol. Bu ef, fel swyddog, yng nghyd a'i deulu lliosog yn ffyddlon yn Rhydygwin am flynyddoedd meithion. Ym mlynyddoedd olaf ei fywyd, yn gweled ei deulu lliosog o un i un yn ei adael heb neb ond efe ac un mab yn aros ar yr hen aelwyd, ddaliodd ati, tra gallai, yn ffyddlon i'r diwedd. Fel cymydog yn garedig a chymwynasgar; mewn caledi ac angen yn barod ei gydymdeimlad, a chyda phob mudiad da rhoddai help llaw. Ddydd ei gynhebrwng, y Sadwrn canlynol, pryd y rhoddwyd ei weddillion gyda'i briod annwyl, tystiau'r dyrfa fawr i gylch eang ei adnabyddiaeth ac i barch dilys yr ardal iddo. Gadawodd deulu o ddeg, meibion a merched yng nghyfraith, wyrion, tri brawd, a llu eraill o berthynasau mewn galar a hiraeth ar ei ôl. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Gweinidog yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. D. Evans, Cribyn; E. O. Jenkins, Llwynrhydowen a W. H. Morgan, B.D., Ystrad.

Ebrill 17, yn 79 mlwydd oed, bu farw John Evans, Bwlchyrorfa, Dihewyd. Ag eithrio 'chydig flynyddoedd olaf ei fywyd, cafodd iechyd da trwy ei oes hir. Un bychan o gorffolaeth oedd John Evans, ond er hynny o gorff cadarn a hoyw, ac yn weithiwr da a thrwyadl. Dyn gonest a didwyll ei feddwl, ac fel cymydog yn ddiddig, caredig a pharod, fel y tystia'r gymydogaeth lle y treuliodd y rhan fwyaf o'i fywyd ynddi. Pan yn ifanc cerddai gyda ffyddlondeb ffordd faith o Fanc Greengrove i Gapel Rhydygwin, a thra ym Mwlchyrorfa, wedi hynny i Gapel Ciliau Aeron hyd nes i afiechyd i'w orddiwes. Gadawodd frawd—Dafydd Evans, Pantrhewfach, a'r unig a erys o'r hen deulu adnabyddus—a pherthynasau eraill a chyfeillion mewn hiraeth ar ei ôl. Ar yr 21ain cynfisol claddwyd ym mynwent Capel Dihewyd, pryd y rhoddwyd ei lwch yn ymyl ei briod a'i rhagflaenodd dros ugain mlynedd yn ôl. Gwasanaethwyd gan ei weinidog y Parch. D. Conwil Evans, a'r angladd yn anghyhoedd.

Pruddaidd iawn yw'r gwaith o gofnodi hanes marwolaeth Mrs. Mary Parry, annwyl briod John Parry, 21, Clark Street, Treorci. Bu farw Sadwrn, Mai 2fed, yn 77 mlwydd oed. Hanai o ardal Llanbedr ac yn naturiol yr oedd ganddi deimlad cynnes tuag at Brondeifi. Bu yn nychu am beth amser, ond nid oeddem wedi tybio ein bod yn mynd i golli Mrs. Parry mor fuan. Yr oedd yn Undodwraig selog, ac nid oedd neb yn fwy ffyddlon na hi i gapel Glanrhondda. Nid oedd eisieu pryderu na fyddai hi yn gwneud ei rhan gydag unrhyw fudiad yn y capel. Bu mewn cysylltiad a Glanrhondda o'i gychwyniad ac ni ymfalchiai neb yn fwy na hi yn llwyddiant yr achos yno. Yr oedd gwyl dê Glanrhondda wedi dod yn enwog oherwydd y deisen a wnaethai hi gogyfer a'r wyl, a llondid calon iddi hi ydoedd gweld yr wyl yn llwyddiant. Fe gaiff Glanrhondda golled fawr ar ei hôl, ac ymhellach dyma un o'r ffyddloniaid wedi mynd eto, ac anodd ydyw llanw y bylchau hyn. Fe ŵyr rhai ohonom am dani fel cymdoges, ac ni allem ddymuno am well. Os gallai hi, ganol nos fel canol dydd, yr oedd hi'n barod ac ewyllysgar, ac fe wnai'r gymwynas gydag urddas a graen. Estynnwn i'w phriod ein cydymdeimlad dwysaf yn ei ofid, ei golled a'i unigrwydd bellach. Prin wedi gwella y mae yntau wedi i ddamwain o dorri ei goes tuag amser Nadolig, ond anodd iawn fydd gwella ar ôl yr ergyd hwn. Claddwyd ym mynwent Brondeifi—ni wnelai un lle arall y tro—dydd Gwener, Mai 8fed. Hawdd canfod y parch oedd i Mrs. Parry yn Nhreorci wrth weled cynifer oedd wedi dod ynghyd i'w hangladd am ddeg o'r gloch bore dydd Gwener. Gwasanaethwyd gan y Parchn. H. H. C. Jones, B.A.; T. O. Williams, M.A.; y Prifathro J. Park Davies; E. R. Dennis a Mr. Gordon Davies, Caerdydd.

Nodion yr Eglwysi.

CAERONNEN.—Ar hwyr Gwener, Ebrill 10, *cynhaliodd Eglwys Caeronnen ei "Social" flynyddol*, pan ddaeth cwmni difyr ynghyd. Gweinyddodd y boneddigesau wrth y bwyd. Rhannwyd melysion ac aur-afalau i'r plant gan Mr. John Davies, Aeron House—yn hannu o hen deulu Rhydderchlwyd a rhowd pobo wobr i'r plant ieuengaf gan Misses Williams, Brynllewelyn. Yn absenoldeb y Gweinidog oherwydd afiechyd llywyddwyd gan Mrs. Williams, Brynllewelyn. Treuliwyd noson lawen ac ymwahanwyd a phawb wedi mwynhau ei hunain.

BRONDEIFI.—Ebrill 15, cynhaliodd Ysgol Sul Brondeifi ei gwyl dê flynyddol. Rhoddwyd y wledd eleni gan *Gardis* yr Eglwys a disgwylir i wŷr Sir Gâr dalu'r pwyth y flwyddyn nesaf. Cafwyd gwledd ardderchog a'r boneddigesau yn gwneud eu goreu i ddiwallu pawb. Yn yr hwyr cynaliwyd Eisteddfod y Plant yn y capel. Llywyddwyd gan Mr. M. Ll. G. Williams, Y.H., Penralltnewydd, a chloriannwyd yr adroddwyr a'r cantorion gan Mr. D. J. Morgan, B.Sc., Llanbedr. Yr Ysgrifennydd oedd Mr. Ted Jones. Gwnaeth pawb ei orau a chafwyd digon o elw i gael *trip* i'r Ysgol Sul. Dyna'r bwriad. Y flwyddyn nesaf credaf y bydd pob plentyn i gystadlu—oherwydd dyna'r prif amcan—gloywi talentau. Diolch i bawb am wasanaeth parod yn absenoldeb y gweinidog.

Y GRAIG A GELLIONNEN.—Llun y Pasg, yn y Graig, cynhaliodd Undeb Undodaidd De-Ddwyreiniol Cymru ei Chymanfa Gerddorol. Llywyddion y dydd oeddynt,—y borau: Cynghorwr R. L. Berry, Aberdâr; prynhawn: Parch. H. H. Ceirion Jones, B.A., Caerdydd; a'r hwyr: Mr. John Hopkin, Trebanos. Datganwyd gan Master Vernon Jones a Mr. Richard Lewis, Trebanos; chwareuwyd ar y ffidil gan Mr. Marles Williams, Trebanos; a chafwyd Solo ar yr Organ gan Mr. I. E. Hopkin, Trebanos, yr hwn hefyd gyfeiliodd drwy yr oll o'r cyrddau. Dau adroddiad gan Mrs. Ceinwen Davies, Trebanos a Mr. W. R. Evans, Aberdâr. Siaradwyd gan Mr. David Roderick, Clydach; a chan y Parch. E. O. Jenkins ar y priodoldeb a'r doethineb i bob eglwys sydd heb weinidog i geisio am un heb oedi. Dechreuwyd cyfarfod y borau gan Mr. Dewi Jones, myfyriwr yng Ngholeg Caerfyrddin; y prynhawn gan Mr. D. T. Evans, Cefncoed, myfyriwr arall eto yn yr un Coleg; a dau fachgen gwir addawol ydynt; a'r hwyr gan gyn-weinidog y lle, y Parch. D. G. Rees, Trebanos. Carem nodi a diolch i foneddigesau'r gynulleidfa am eu hymdrechion rhagorol yn paratoi'r bwyd i'r ymwelwyr; ac i'r bechgyn parod fuont ran helaeth o'r dydd yn y glaw gyda'r berwedydd. Ai nid gwaith go hawdd fuasai gosod tipyn o dent uwch eu pennau? Bydded i ni gofio am y rhai sydd yn llafurio, yn enwedig yn yr hin wleb, a hynny oriau hirion. Mae diolchgarwch yn ddyledus hefyd i'r arweinyddion yn y gwahanol eglwysi, am eu hymdrech gyda'r rhaglen, yr anthem a'r cytgan, a'r cwrteithiad ar yr oll wedi peri i'r canu godi i safon deilwng,—yn enwedig mewn swyn. Cofiwn am ambell i gymanfa, pan yr oedd ynddi, i'n barn ni, ormod o ganu,—gormod o swn,—a rhy fach o'r naws a'r swyn. A chredwn yn ddibetrus i'r gymanfa hon daro'r tant priodol yn hyn o beth. Sylwasom hefyd ar un peth arall, yn arbennig felly, na cheisiwyd gwneud y canu yn wahanol i'r canu cynulleidfaol arferol. Yr oedd y canu y fath, fel yn hawdd y gallai pawb uno yn y gân. Brithwyd ambell i Raglen Cymanfa a rhyw bosis annaturiol a di-eneiniad, nes gwneud i ni deimlo ein bod oddi cartref ac nid yn gartrefol yn yr ysbryd; a'r canlyniad yw, y geill pob cynulleidfa ganu yr oll o'r emynau hyn eto yn y gwahanol

eglwysi heb orfod cofio am hyn a'r llall ar y ffordd, a thrwy hynny wneud yr addoliad yn ddiflas. Mae'r dydd wedi dod pan ddylai arweinyddion y gân ac arweinyddion cymanfaoedd yn ogystal, gadw canu'r gymanfa ar safon syml, ddealladwy canu cynulleidfaol. Wedi cyfarfod yr hwyr tystiodd amryw bobl yn ein clyw fod y canu yn ardderchog,—a dyna ben ar y mater; ac ofer dadl wedi barn. Ac y mae'r anrhydedd am y llwydd hwn yn ddyledus i'r arweinydd Mr. H. H. Morgan, yr hwn na ddwedai nemor ddim, ond fel y dwedodd brawd arall, ei fod am i'r canu lefaru drosto ei hun, a dyna'r man am dani. Ble mae'r Gymanfa nesaf i fod?—Yn y Graig, dydd Sadwrn, Ebrill 11, dan nawdd pwyllgor y Cyfarfodydd Llenyddol a Cherddorol cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol lwyddiannus ym mhob ystyr. Cafwyd cystadlu da ar y cyfan, ac yr oedd yno lawer iawn o frwdfrydedd ar lawer o'r *items* pwysicaf. Caed y rhagbrawf yn y prynhawn. Bardd y gadair ydoedd Mr. John Williams, Alltwen, a chadeiriwyd y bardd yn unol a braint a defawd Beirdd Ynys Prydain. Mr. John Hopkin oedd y Llywydd. Beirniaid: Cerdd, Mr. David Davies, Alltwen; Llen, Mr. Charles Williams, C.S., Rhydyfro. Cyfeilwyr, Mr. W. J. Bowen a Mr. I. E. Hopkin. Trysorydd ac Ysgrifennydd, Mr. J. W. Bowen a Mr. Hopkin Jones, Trebanos.

Yn y Graig, nos Sul, Mai 3, dan nawdd Ysgol Sul y lle, cynhaliwyd pen cwarter yr uchod, a chafwyd un o'r cyfarfodydd gorau a gawd er ys tipyn. Braint fa'i cael help mwy o'r rhai mewn oed, i amgau'n weddol am y plant, ac amrywiaeth cyfatebol yn y rhaglen o ganlyniad i hynny. Llywyddwyd gan yr Arolygydd, Mr. Lewis Morgan, Clydach; a chyfeiliwyd gan Mr. H. H. Morgan, Trebanos.

Eto, yn y Graig, prynhawn a nos Sul, Mai 10, gwelodd yr eglwys yn briodol i gael Sul o Fawl, a chafwyd y cyfryw, ag un o'r cyrddau hyfrytaf a melysaf a fuwyd ynddo er ys llawer dydd. Canwyd emynau allan o Berlau Moliant, ac o Raglen y Gymanfa ddiweddaf a gynhaliwyd yn y lle ar Lun y Pasc. Ychwanegwyd anthem a chytgan at y rhaglen, sef "Dysg i mi dy ffordd, O Arglwydd," gyda blas ac arddeliad. Llywyddwyd, cyfeiliwyd ac arweiniwyd yn y ddau gwrdd gan Fri. John Hopkin, Lewis Morgan, Clydach; Isaac Emlyn Hopkin a H. H. Morgan. Awgrymodd y cyhoeddwr y gellid yn hawdd cael cynnull tebig yn amlach. Felly y bo; a dweded yr holl bobl, Amen!

Nid Sul gwyll, ond Sul y gwawl,—
a ddylem
Addoli'n emynnawl;
Ei foddion sy'n rhyfeddawl,—
Sail i fyw yw "Sul o Fawl".

BANOS.

CYMANFA YSGOLION—Ar ddydd Mercher, Mai 20fed, cynhaliodd y pedair ysgol, Caeronnen, Brondeifi, Alltyblaca a Chapelygroes eu "Cymanfa Bwnc." Holwyd gan y gweinidogion ac yr oedd yr Ysgolion yn weddol lewyrchus a chafwyd Cymanfa weddol. Yn yr hwyr cafwyd *rehearsal* gyda Mr. David Davies, Llanbedr, yn arwain.

BWLCHYFADFA.—Llongyfarchiadau i Miss Annie Lee (Lil) Lewis, Glanrafon Arms, Talgarreg ar ei gwaith da mewn arholiad ynglyn a chwarae'r Berdoneg. Un o blant Bwlchyfadfa yw Lil ac mae'n dda gennym am ei llwyddiant. Llongyfarchwn ei hathrawes hefyd, sef Miss Mallie Davies, L.L.C.M., Dewi Villa.

CYMANFA GANU UNDODIAID CEREDIGION.—Cynhelir yr uchod yn Eglwys y Tabernacl, Aberaeron, dydd Llun, Mehefin 15. Hefyd gobeithio y gwna'r cantorion ymdrech i fod yn bresennol yn y Rehearsal a gynhelir dydd Sul, Mehefin 14, yng Nghapelygroes am 1.30, ac yn Llwynrhydowen am 6 o'r gloch, pryd y disgwylir Dr. T. Hopkin Evans i arwain.

J. D. Lewis, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

FOUR GOOD BOOKS.

The Unitarian Heritage.
(The most complete history of the Unitarian Movement) by Earl Morse Wilbur. ... ... **7/6** or by Post 8/-.

Judaism in the New Testament Period.
By R. Travers Herford, B.A. ... **4/6** or by Post 4/10.

The King who was Thirsty.
(Thirty-four Talks to Girls and Boys), by Bertram Lister, M.A. **2/6** or by Post 2/9.

Be Comforted.
An Anthology of consolation for those in sorrow. Edited by W. E. George, M.A. ... ... **1/6** or by Post 1/8.

THE LINDSEY PRESS, ESSEX HALL BOOKROOM,
5, Essex Street, Strand, London, W.C. 2.

JOHN E. JONES

(CERTIFICATED)

JEWELLER, SILVER-SMITH and OPTICIAN,

1, Wind St.,

Llandyssul.

:: Bradford House, Llandyssul ::

FOR FASHIONABLE DRAPERY GOODS.

NEWEST GOODS IN LADIES', GENT'S and CHILDREN'S WEAR NOW IN STOCK.

MOURNING ORDERS IMMEDIATELY ATTENDED TO.

E. LLOYD JONES.

OS YDYCH AM RODDI . .

Anrheg am Ffyddlondeb i'r Ysgol Sul

. . A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

'PERLAU MOLIANT'

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

: : J. D. LEWIS, : :

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.